**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mawrth 2009**

**CRONFEYDD YR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB CYFUNOL**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Hysbysu Aelodau o drafodaethau diweddar ynglŷn â Chronfeydd yr Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunol yng nghyfarfod Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror 2009.

## Cefndir

2 Bydd aelodau yn cofio fod y mater hwn wedi ei amlygu gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2008. Penderfynodd Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru'r pwerau statudol angenrheidiol i gadw cronfeydd, er fod awdurdodau wedi bod yn cadw cronfeydd heb gymhwyster cyfrifo ers eu sefydliad yn 1996. Mae copi o'r adroddiad llawn gyflwynwyd i gyfarfod Cyngor CLlLC ynghlwm.

3 Bydd y Clerc yn rhoi diweddariad llafar yn y cyfarfod.

## Argymhelliad

4 Fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth.

## Cronfeydd yr Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunedig

## Diben yr Adroddiad

1. Ym mis Gorffennaf 2008, penderfynodd Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru'r pwerau statudol angenrheidiol i gadw cronfeydd, er fod awdurdodau wedi bod yn cadw cronfeydd heb gymwysterau cyfrif, ers eu sefydliad yn 1996. Mae'r papur hwn yn egluro'r mater ac yn edrych am farnau'r Cyngor ar ddatrysiad arfaethedig.

## Cefndir

2. Sefydlwyd tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn 1996 o dan Orchymyn Cyfunol, arwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol bryd hynny. Mae'r gorchymyn yn dweud bydd darpariaeth gwasanaeth tân yng Nghymru yn cael ei gyflawni gan Awdurdod a Gwasanaeth Tân fel endid cyfreithiol cwbl ar wahân o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, yn seiliedig ar ffiniau daearyddol cwbl wahanol. Mae'r Gorchymyn Cyfunol yn dweud fod yr eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n cael eu dal gan awdurdodau cyn 1996 yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdodau Tân ac Achub pan y'i crëwyd. Fel y cyfryw, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn endidau cyfreithiol arwahanol gyda'r pwerau i ddal eiddo ac asedion yn eu henwau eu hunain ac nid yn enwau eu hawdurdodau cyfansoddol. Fe'i hariannir drwy gyfraniadau uniongyrchol gan awdurdodau cyfansoddol ar lefel a benodir gan yr Awdurdodau Tân ac Achub.

3. Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cynnwys aelodau a chynghorwyr wedi eu henwebu gan awdurdodau lleol cyfansoddol mewn cyfran uniongyrchol i'r etholwyr llywodraeth leol gofrestredig mewn ardal. Mae'r awdurdodau cyfansoddol yn gadael i'r Awdurdodau Tân ac Achub gyflawni eu swyddogaethau a dyletswyddau, gan gydnabod bydd atebolrwydd am fethiant i'w rhyddhau yn aros gyda'r Prif Swyddogion Tân/Cyfarwyddwyr ac aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub.

4. Yn 1997-98 roedd rhaid i rai Awdurdodau Tân ac Achub edrych am gyfraniadau atodol gan eu hawdurdodau cyfansoddol oherwydd nad oeddynt wedi gwneud darpariaeth ddigonol i gyflawni eu swyddogaethau. Achosodd hyn anawsterau i awdurdodau cyfansoddol ac fe gynghorasant Awdurdodau Tân ac Achub nad oeddynt yn dymuno iddynt ofyn am gyfraniad atodol yn y blynyddoedd i ddod. O ganlyniad, ers y cyfnod hwnnw, ac yn unol gyda chynllunio da a doeth, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi edrych i sefydlu cronfeydd a darpariaethau i gwrdd â gwariant wedi ei gynllunio a gwariant anrhagweledig yn y dyfodol. Mae'r defnydd o gronfeydd a darpariaethau wedi helpu'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddelio gyda diffygion yng nghynlluniau pensiwn diffoddwyr tân ac i gynllunio'n ddigonol a gweithio'n hyblyg rhwng blynyddoedd. Maent wedi amddiffyn yr awdurdodau cyfansoddol rhag darparu cyfraniadau atodol i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ystod y flwyddyn ariannol.

5. Mae'r lefelau o gronfeydd a darpariaethau wedi cael ei sefydlu mewn ymgynghoriad llawn gyda thrysoryddion awdurdodau cyfansoddol ac wedi amrywio'n unol gydag anghenion pob gwasanaeth tân. Mae'r derminoleg ar gyfer dal y cronfeydd wedi amrywio hefyd, weithiau cyfeirir atynt fel cronfeydd ac weithiau fel darpariaethau, yn ôl cais gwahanol archwilwyr o Swyddfa Archwilio Cymru dros y blynyddoedd.

## Cyfrifon 2007-08

6. Mae'r symiau mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi eu cadw i un ochr ar gyfer cronfeydd a darpariaethau wedi eu datgelu'n llawn yn flynyddol yn eu Datganiadau o Gyfrifon, sydd wedi derbyn barnau archwilio digymwys gan Swyddfa Archwilio Cymru ers 1996. Fodd bynnag, yn 2007-08 am y tro cyntaf, fe apwyntiodd yr holl Awdurdodau Tân ac Achub Swyddfa Archwilio Cymru fel eu harchwilwyr allanol ac wythnosau cyn oedd y cyfrifon i'w harwyddo, fe heriodd Swyddfa Archwilio Cymru cyfreithlondeb y cronfeydd dal. Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'n cymhwyso cyfrifon unrhyw Awdurdod Tân ac Achub oedd yn dal cronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn, ond cytunwyd i beidio â chymryd gweithrediad yn eu herbyn os oeddynt yn derbyn y fersiwn cymwysedig. Cynghorodd Swyddfa Archwilio i'r Awdurdod Tân ac Achub gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatrys y mater, ond cytunodd i beidio defnyddio ei bwerau cyffredinol i dynnu'r mater i sylw Llywodraeth y Cynulliad.

7. Oherwydd prinder amser, daethpwyd o hyd i gyfaddawd ar gyfer cyfrifon 2007-08 oedd yn gweld Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cytuno ar driniaethau cyfrifo gwahanol gyda Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly'n osgoi cymhwyso. Fodd bynnag, ni ddiwygiodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ei gyfrifon oedd felly cawsant eu cymhwyso gan Swyddfa Archwilio Cymru. Oherwydd yr amgylchiadau presennol, fe dderbyniodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru farn archwilio gymwysedig i amddiffyn ei safle ariannol, gan aros am ddatrysiad llawn ar y mater hwn.

## Y pŵer i gadw cronfeydd

8. Rydym ni'n deall gan yr Awdurdodau Tân ac Achub fod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru (KPMG) a'r awdurdodau cyfansoddol ymgynghorwyd â hwy, yn gefnogol o'r egwyddor y dylai fod gan yr Awdurdodau Tân ac Achub y pŵer i gadw cronfeydd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno fod cynnal y cronfeydd yn ddoeth, ei fod yn bŵer sy'n cael ei roi i'r Cynghorau Cymunedol lleiaf a'i fod yn cael ei ystyried yn rheolaeth ariannol iach ac arfer da. Mae canllawiau cyfrifo CIPFA yn atgyfnerthu'r farn hon gan nodi y dylai sefydliadau gynnal darpariaethau a chronfeydd fel mater o ddoethineb. Mewn termau ymarferol, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn defnyddio cronfeydd a darpariaethau i:

- Ddarparu hyblygrwydd rhwng blynyddoedd i alluogi rheoli ariannu gwaith/cytundebau sy'n pontio mwy nag un flwyddyn yn effeithiol;
- Osgoi'r angen am gyfraniadau atodol neu drosglwyddo adnoddau heb eu gwario nol i awdurdodau cyfansoddol bob blwyddyn;
- Casglu adnoddau i brynu tir neu offer;
- Ariannu'r datblygiad a'r buddsoddiad mewn systemau newydd sy'n cymryd mwy nag un flwyddyn i'w cyflwyno;

- Galluogi buddsoddiad i arbed a mentrau effeithlonrwydd;
- Darparu ar gyfer cytundebau penodol lle mae'r amseru'n ansicr;
- Ariannu'r costau sy'n gysylltiedig gydag ymateb i lifogydd/tywydd drwg a digwyddiadau gweithredol anarferol;
- Sefydlu cronfa i dalu am gostau ychwanegol ymddeoliadau cynnar o dan bolisi effeithlonrwydd;
- Creu cronfa wrth gefn cyffredinol; a
- Neilltuo adnoddau ar gyfer rhesymau penodol, megis pensiynau.

9. Y cwestiwn gododd Swyddfa Archwilio Cymru yw nid os ddylai'r awdurdodau allu cadw cronfeydd, ond os ydynt yn gallu gwneud hyn yn gyfreithiol. Mae safle Swyddfa Archwilio Cymru yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol mae wedi dderbyn, ond mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ystyried nad yw'r safle mor glir ag y mae cyngor cyfreithiol yn awgrymu. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn dilyn cyngor a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref yn 1999 sy'n dynodi'n glir eu bod yn gallu cadw cronfeydd a chadw tân wariannau diwedd blwyddyn. Er mwyn osgoi unrhyw anghydfod cyfreithiol dros y mater hwn, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi mynd at Lywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn am newid y Gorchymyn Cyfunol i egluro'r sefyllfa.

10. Mae CLlLC wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru i bennu pa un ai os yw hyn yn bosib ac yn ymarferol ac wedi cynghori dylai Llywodraeth cynulliad Cymru yn barod i wneud beth fyddai'n newid eithaf syml. Rydym ni'n credu fod achos cryf i'r awdurdodau tân gael y pŵer i gadw cronfeydd ac edrych am gefnogaeth y Cyngor.

## Lefelau Cronfa a'r Defnydd Ohonynt

11. Mae ystyriaeth os ddylai'r Awdurdodau Tân ac Achub gael y pŵer i gadw cronfeydd yn arwain at y cwestiwn os ddylent osod lefel y fath gronfeydd neu os ddylid gosod cyfyngiad. Mae barnau'r archwilwyr yn awgrymu ei bod hi'n ddoeth i sefydliadau neilltuo cronfeydd cyffredinol o rhwng 3% a 5% i un ochr, yn ychwanegol i gronfeydd penodol eraill hefyd. Mae'r tabl isod yn dangos y lefel o gronfeydd a gedwir gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru o gymharu â'u gwariant blynyddol gros ers 2006-07.

**Gwariant a chronfeydd refeniw gros Awdurdod Tân**

***fel % o'r gwariant gros***

| Awdurdod | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cronfeydd arianol sydd wedi eu clustoni ar ddechrau'r flwyddyn ariannol | Cronfeydd ariannol heb eu dyrranu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol | Cronfeydd arianol sydd wedi eu clustoni ar ddechrau'r flwyddyn ariannol | Cronfeydd ariannol heb eu dyrranu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol | Cronfeydd arianol sydd wedi eu clustoni ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (a) | Cronfeydd ariannol heb eu dyrranu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (a) |
| Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin | 9.26% | 0.00% | 9.51% | 0.00% | 8.41% | 0.00% |
| Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 10.48% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.02% | 0.00% |
| Awdurdod Tân De Cymru | 3.22% | 4.22% | 5.14% | 8.47% | 8.64% | 8.02% |
| Cyfanswm Awdurdodau Tân | 6.59% | 2.05% | 5.35% | 4.12% | 6.72% | 3.94% |

Ffynhonnell: Mae ffigyrau (cronfeydd) 2006-07, 2007-08 a 2008-09 o Ffurfleni Alldro Refeniw. Ffigwr gwariant refeniw gros 2008-09 o ffurfleni cyllideb Cyfrif Refeniw

12. Mae cynlluniau ariannol presennol yr Awdurdodau Tân ac Achub yn dibynnu ar y defnydd o gronfeydd:

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi prynu safle newydd i'r Pencadlys yn ddiweddar ac yn adleoli yn gynnar yn 2009, mae gwerthiant safle presennol y Pencadlys wedi methu ac nid yw'n debygol o symud yn ei flaen am beth amser oherwydd yr amodau economaidd. Mae arian wedi ymgasglu ar gyfer treuliau amrywiol eraill hefyd yn ychwanegol i'r gronfa gyffredinol ar gyfer gwariant anrhagweledig;

- Oherwydd pryniant Pencadlys newydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae cyllideb 2008-09 yn cynnwys £2.88 miliwn o gronfeydd, gyda £1 miliwn arall wedi ei addo ar gyfer 2009-10;

- Mae cronfeydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwbl hanfodol wrth gefnogi'r gyllideb dros y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i'r pensiynau'n cael eu tanariannu yn 2007-8. Cytunwyd ar gynllun sy'n gostwng dibyniaeth cyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub ar gronfeydd gyda'r awdurdodau cyfansoddol yn elwa o effaith lliniarol y cronfeydd yma. Mae'r gyllideb yn cael ei chefnogi gan gronfeydd o oddeutu £1.4 miliwn yn 2008-09, £680,000 yn 2009-10 a £580,000 yn 2010-11. Bydd hyn yn gadael mantolen o oddeutu £2 miliwn;

- Er bod y cronfeydd yma wedi eu tynnu o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'r holl awdurdodau cyfansoddol yn dangos y cronfeydd ar wahân yn eu cyfrifon eu hunain er defnydd penodol yr Awdurdodau Tân ac Achub. Mae hyn yn arddangos y gefnogaeth a roddir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol a'r buddion maent yn weld o'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cael mynediad i gronfeydd.

- Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud darpariaethau tuag at

  (i) gwrdd â chostau terfynol adleoli ei Ystafell Reoli i gyfleuster sy'n gweithredu ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru. Roedd yr adleoliad i ddigwydd erbyn 31 Mawrth 2008 ond roedd wedi gor-redeg am gyfnod byr o amser gan olygu byddai rhai costau'n cario drosodd i 2008-09 (£143k)

  (ii) cost botensial y ceisiadau Tâl Cyfartal sy'n gysylltiedig â Staff y System Dyletswydd Rhan Amser (£200k)

  (iii) cost botensial cyfraniadau cyfandaliadau i Gyfrif Pensiynau ymddeoliadau oherwydd afiechyd (£264k)

  Nid yw'r symiau yma'n berthnasol â chyllideb gyffredinol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ond yn cefnogi'r cynnig i gytuno ar ymarferion cyfrifo addas yn unol gydag arferion argymelledig a safonau adrodd sy'n berthnasol i gyfriflenni'r sector cyhoeddus.

13. Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub ddyletswydd gyffredinol i gyflwyno eu cyfrifoldebau statudol ac mae gan eu trysoryddion ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cyngor ariannol addas sy'n galluogi cyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Mae

defnydd wrth gefn yn chwarae rhan arwyddocaol yn y cynlluniau presennol a chanolradd ac fe ddylai'r lefel o gronfeydd angenrheidiol gae eu gyrru gan angen yn hytrach na chyfyngiad gosodedig allai fod un ai'n gyfyngiad annoeth ar Awdurdodau Tân ac Achub neu'n darged sy'n clymu arian diangen o awdurdodau cyfansoddol.

14. Mae'r tabl uchod yn dangos fod cronfeydd wedi amrywio o rhwng dau'r cant a phedwar y cant dros y blynyddoedd ac fe gytunwyd ar y lefelau yma drwy ddefnyddio trefniadau llywodraethu corfforaethol sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Hyd y gwyddwn, ers eu sefydliad, ni chafwyd unrhyw wrthdrawiadau rhwng Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau cyfansoddol am y lefel o gronfeydd Awdurdodau Tân ac Achub ac felly rydym ni'n awgrymu nad oes unrhyw beth i'w ennill o gyflwyno cyfyngiad cronfa ar hyn o bryd. Efallai bydd aelodau yn dymuno adolygu'r safle yma yn y dyfodol i weld os yw'r sefyllfa yma wedi newid, ond yn y cyfamser, rydym ni'n argymell fod Aelodau yn cytuno i adael y trefniadau presennol fel y maent.

## Argymelliadau

**15. Gwahoddir Aelodau i ystyried y papur ac i gytuno y dylai CLlLC:**

**15.1 gytuno gyda'r egwyddor y dylai Awdurdodau Tân ac Achub allu cadw cronfeydd;**

**15.2 cefnogi'r Awdurdodau Tân ac Achub yn yr achos sy'n cael ei wneud i Lywodraeth cynulliad Cymru i ddiwygio'r Gorchymyn Cyfuno yn unol â hynny; a**

**15.3 chefnogi'r trefniadau llywodraethu corfforaethol presennol lle caiff lefelau cronfeydd yr Awdurdodau Tân ac Achub eu pennu.**

---

**Awdur:** Vanessa Phillips
**Ffôn:** 02920 4688620
**E-bost:** Vanessa.phillips@wlga.gov.uk